**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-CS-0123-17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

13th Mawrth 2017

Annwyl John

**BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)**

I gefnogi gwaith craffu'r Pwyllgor ar Fil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru), sef y Bil y cyflwynais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru heddiw, amgaeaf Ddatganiad o Fwriad y Polisi. Mae'r ddogfen honno'n rhoi gwybodaeth am fwriad y polisi o ran y pwerau dirprwyedig yn y Bil, os byddant yn dod i rym.

Yn ogystal, rwy wedi cyhoeddi dau adroddiad ymchwil a chwe asesiad o effaith, fel deunyddiau ychwanegol sy'n berthnasol i'r Bil. Gallwch weld y dogfennau hynny ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/legislation/abolition-of-right-to-buy-and-associated-rights/?lang=cy

Rwy'n gobeithio y bydd y dogfennau hyn o ddefnydd i'r Aelodau, ac edrychaf ymlaen at gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Mae copi o'r llythyr hwn, a'r atodiad y sonnir amdano, yn cael eu hanfon at Huw Irranca-Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

## Bwriad y polisi mewn cysylltiad ag is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn

Mawrth 2017

**BWRIAD Y POLISI MEWN CYSYLLTIAD AG IS-DDEDDFWRIAETH BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o fwriad y polisi presennol mewn cysylltiad â'r is-ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru yr awdurdod i'w rhoi ar waith neu y mae'n ofynnol iddynt ei gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru). Fe'i cyhoeddwyd er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor cyfrifol yn ystod y broses o graffu ar y Bil. Dylai gael ei darllen ar y cyd â Phennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol.

Bydd Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) yn cael gwared ar yr holl amrywiadau o'r *Hawl i Brynu* a'r *Hawl i Gaffael*. Bydd cyfnod hysbysu o flwyddyn o leiaf ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol cyn diddymu'r hawliau. Bydd yr hawliau mewn perthynas â thai cymdeithasol y cyflenwad newydd yn dod i ben ddau fis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol.

Mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer:

- Cyfyngiad ar arfer yr Hawl i Brynu
- Eithriadau i'r cyfyngiad ar arfer yr Hawl i Brynu
- Cyfyngiad ar arfer yr Hawl i Gaffael
- Diddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael
- Gwybodaeth i denantiaid a darpar denantiaid
- Dileu'r pŵer i roi grantiau mewn cysylltiad â gostyngiadau
- Diwygiadau a diddymiadau canlyniadol

Mae adran 9 o'r Bil yn darparu y bydd adrannau 5, 8 a 10 yn dod i rym ar y diwrnod y bydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Mae adrannau 1, 2 a 3 yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol. Bydd gweddill y darpariaethau yn cychwyn drwy Orchymyn, ond ni all adrannau 4 a 6 ddod i rym cyn diwedd y cyfnod o 12 mis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol.

**Tabl 2 - Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer darpariaethau yn y Bil Diddymu’r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)**

| Adran | Disgrifiad | Bwriad y Polisi |
|---|---|---|
| Adran 3(2) (Yn mewnosod adran 121ZB(4)) | Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio adran 121ZB, drwy ychwanegu rhagor o ddisgrifiadau o achosion y gallai'r Hawl i Brynu gael ei harfer yng Nghymru. | Mae adran 121ZB yn rhestru'r eithriadau i'r cyfyngiadau ar arfer yr Hawl i Brynu. Mae'r pŵer yn adran 121ZB (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o eithriadau drwy ychwanegu rhagor o amgylchiadau y gellir arfer yr Hawl i Brynu. Ni fyddai'r pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio i amlygu newidiadau i'r polisi ac/neu i ymateb i newidiadau i amodau sy'n ymwneud â'r farchnad dai cymdeithasol. |
| Adran 5(2) (Yn mewnosod adran 16C(2) | Caiff Gweinigodion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio adran 16C drwy ychwanegu rhagor o amgylchiadau y gellir arfer yr Hawl i Brynu. | Mae adran 16C yn rhestru'r eithriadau i gyfyngiad yr Hawl i Gaffael. Mae'r pŵer yn adran 16C(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o eithriadau drwy ychwanegu rhagor o amgylchiadau y gellir arfer yr Hawl i Gaffael. Ni fyddai'r pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio i amlygu newidiadau i'r polisi ac/neu i ymateb i newidiadau i amodau sy'n ymwneud â'r farchnad dai cymdeithasol. |
| Adran 9 | Mae adran 9 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn gwneud unrhyw ddarpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, darfodol neu arbed yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn i ddarpariaethau'r Bil gael yr effaith orau. | Ni fydd y pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall sydd ei hangen fel canlyniad i ddarpariaethau'r Bil.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil. Caiff diwygiadau canlyniadol i Ran 5 o Ddeddf Tai 1985 eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth at ddibenion bod yn hyblyg o ran amseru unrhyw ddiwygiadau, yn sgil y cysylltiad rhwng gweithredu'r Bil hwn a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Bydd drafft o'r diwygiadau canlyniadol sydd eu hangen i Ran 5 o Ddeddf Tai 1985 yn cael ei roi i'r pwyllgor. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bwriedir i'r elfennau trosiannol, arbed a chanlyniadol fod yn addas ar gyfer y broses o ddiddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yng Nghymru, fel bod y gyfraith newydd yn gweithredu yn y modd y bwriedir iddi wneud. |
| Adran 11(3) | Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n darparu bod darpariaethau'r Bil yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru. Mewn perthynas ag adrannau 6 a 7 (diddymu'r hawl i brynu a hawliau cysylltiedig a dileu'r pŵer i roi grantiau mewn cysylltiad â gostyngiadau), ni chaiff Gweinidogion Cymru bennu diwrnod cyn y cyfnod o 12 mis sy'n cychwyn y diwrnod y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol (adran 11(4)).<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ddarfodol, trosiannol neu arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil a fydd yn dod i rym (adran 11(5)). | Ni fydd y pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio i ddod â darpariaethau'r Bil i rym.<br><br>Bwriedir y bydd gorchymyn cychwyn yn cael ei wneud yn fuan ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol er mwyn pennu'r dyddiad y bydd adran 6 (ymhlith eraill) yn dod i rym - a fydd yn rhoi'r diddymiad ar waith. Bydd hynny'n rhoi cymaint o rybudd ag sy'n bosibl i denantiaid ac i landlordiaid cyn diddymu'r hawliau. Bydd y dyddiad perthnasol hefyd yn cael ei gynnwys yn yr wybodaeth a gynhyrchir ac a anfonir at denantiaid o dan adran 8 o'r Bil. |